FOUNDATION

# Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## 2021/22

#MaeEinClwbNi'nNewidBywydau



# Cyflwyniad

**Cardiff City FC Community Foundation (y Sefydliad) yw elusen swyddogol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd (Cardiff City FC).**

Ein gweledigaeth yw bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwireddu eu potensial yn llawn.

Ein cenhadaeth yw defnyddio apêl unigryw Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i newid bywydau yn Ne Cymru. Rydyn ni'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn dymchwel rhwystrau drwy helpu pobl i fyw bywydau mwy iach ac actif, drwy wella cyfleoedd addysg a chyflogaeth a thrwy leihau cyfraddau troseddu ac aildroseddu. Yn syml iawn, '**MAE EIN CLWB NI'N NEWID BYWYDAU**'.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 21/22 yn amlinellu'r camau rydyn ni'n bwriadu eu cymryd rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022 i sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu plannu'n ddwfn yn ein sefydliad.

FOUNDATION

# Mewn cymuned yn gytûn

## Datganiad ar Gydraddoldeb

I'r Sefydliad, nid trin pawb yr un fath ydy hanfod cydraddoldeb, ond sicrhau bod gan bawb yr un cyfleoedd – drwy roi ystyriaeth i wahanol anghenion a galluoedd pobl.

## Nodweddion Gwarchodedig

Hanfod amrywiaeth ydy cydnabod a rhoi gwerth ar wahaniaeth drwy gynnwys cynifer o bobl â phosib, p'un a yw'r gwahaniaethau hynny'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig fel oedran, crefydd neu gred, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (sy'n cynnwys lliw, cenedligrwydd, dinasyddiaeth a tharddiad ethnig neu genedlaethol), rhyw (neu hunaniaeth rhywedd) a/neu gyfeiriadedd rhywiol.

## Rhoi Gwerth ar Wahaniaeth

Fodd bynnag, mae amrywiaeth a chynhwysiant hefyd yn cynnwys rhoi gwerth ar wahaniaethau eraill – yn cynnwys ond heb fod wedi'i gyfyngu i ddigartrefedd, lefelau incwm, euogfarn droseddol o'r gorffennol, ymrwymiadau y tu allan i'r gwaith, gweithio'n rhan-amser neu waith shifft, iaith, gweithredu gydag undeb, addoliad, statws iechyd, safbwyntiau, barnau a/neu werthoedd personol unigolyn.

## Cyfle Cyfartal

Felly, i'r Sefydliad, hanfod arfer cydraddoldeb ydy sicrhau bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i wneud y gorau o'u bywydau a'u talent; a chred na ddylai cyfle unrhyw un i ffynnu mewn bywyd fod wedi'u cyfyngu gan ffactorau fel ble cawson nhw eu geni, sut cawson nhw eu magu, ble maen nhw'n byw, eu credoau – neu a oes anabledd ganddyn nhw. Ac mae cydraddoldeb hefyd yn golygu cydnabod bod rhai grwpiau o bobl yn hanesyddol wedi profi gwahaniaethu. O achos y gred a'r ddealltwriaeth hon, mae'r Sefydliad wedi ymrwymo i'r canlynol:

> "Mae'r Sefydliad wedi ymrwymo'n llwyr i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-wahaniaethu. Byddwn ni'n gweithio i fynd i'r afael â meysydd ble mae tangynrychiolaeth ac anfantais, a hynny ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau, ein gweithgareddau a'n gwasanaethau. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddwn yn parchu anghenion pob unigolyn, ni waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt; ac i'r perwyl hwn, byddwn yn cyflawni ein gweithrediadau, ein gweithgareddau a'n gwasanaethau mewn ffordd a fydd yn sicrhau na chaiff neb ei allgáu."




## Beth ydyn ni am ei gyflawni?

**Amcan 1** – Gweithlu amrywiol, sgilgar ac angerddol sy'n cynrychioli'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

## Pam fod hyn yn bwysig i ni?

Rydyn ni am recriwtio a chadw'r bobl orau, sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol, sy'n cynrychioli ac wedi'u cysylltu â'r bobl rydyn ni'n gweithio â nhw a'n cymunedau.

| Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? | Amserlen ar gyfer cwblhau | I'w adolygu | Cyfrifoldeb Pennaf |
|---|---|---|---|
| **1.** Byddwn ni'n pennu'r cyfrifoldeb dros CA&Ch drwy benodi Hyrwyddwr CA&Ch y Bwrdd, Hyrwyddwr CA&CH y Staff ac Arweinwyr CA&Ch ar gyfer nodweddion gwarchodedig. | Medi 21 | Bob blwyddyn | Cadeirydd / Cyfarwyddwr y Sefydliad |
| **1.2** Byddwn ni'n monitro ar gyfer cydraddoldeb o leiaf bob tair blynedd ac yn cymharu â data'r boblogaeth. Byddwn yn ystyried sut gellir cynyddu amrywiaeth ymysg ein bwrdd, ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n hymgeiswyr.<br><br>*PLCF 1.1, 2.3* | Mawrth 22 | 3 blynedd | Swyddog Llywodraethu ac Ansawdd / Arweinydd CA&Ch |
| **1.3** Byddwn ni'n rhoi hyfforddiant CA&Ch blynyddol i'r holl staff ac ymddiriedolwyr i blannu diwylliant CA&Ch yn ddyfnach o fewn ein sefydliad.<br><br>*PLCF 4.3* | Mawrth 22 | Bob blwyddyn | Swyddog Llywodraethu ac Ansawdd / Arweinydd CA&Ch |
| **1.4** Byddwn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth thematig yn ein cynllun hyfforddiant blynyddol i staff ac yn ein proses ymsefydlu. Er enghraifft, Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd.<br><br>*PLCF 5.1, 5.3* | Rhag 21 | Bob blwyddyn | Swyddog Llywodraethu ac Ansawdd / Arweinydd CA&Ch |
| **1.5** Byddwn yn parhau i wella'n polisïau recriwtio a dethol i sicrhau eu bod yn cefnogi ceisiadau amrywiol, yn defnyddio rhwydweithiau a systemau sy'n cyrraedd ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol ac yn dileu'r risg o ragfarn ddiarwybod. | Medi 21 | Bob blwyddyn | Pennaeth Cyllid a Gweithrediadau / Arweinydd CA&Ch |

FOUNDATION

# Taclo anghydraddoldeb gyda'n gilydd

| Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? | Amserlen ar gyfer cwblhau | I'w adolygu | Cyfrifoldeb Pennaf |
|---|---|---|---|
| **1.6** Byddwn yn cynnig cyfleoedd penodol i staff o grwpiau nodweddion gwarchodedig gael datblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa yn Cardiff City FC Foundation. | Awst 22 | Bob blwyddyn | Pennaeth Cyllid a Gweithrediadau / Arweinydd CA&Ch |
| **1.7** Byddwn yn parhau i gael sgyrsiau gydag aelodau o staff o grwpiau nodweddion gwarchodedig am eu profiadau a'u lefelau boddhad, fel ffordd o fonitro'r cynnydd tuag at ddiwylliant mwy cynhwysol.<br><br>*PLCF 2.4* | Awst 22 | Bob blwyddyn | Arweinydd CA&Ch |
| **1.8** Byddwn yn hyfforddi'n myfyrwyr ac yn eu rhoi i weithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen fel y gallant rannu eu profiadau byw a dod yn rhan o'n gweithlu yn y dyfodol. | Awst 22 | Bob blwyddyn | Cydlynydd Sgiliau a Chyflogadwyedd |
| **1.9** Byddwn yn cynnal Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Chyflogeion ac yn ategu hwn drwy wirio'r sefyllfa'n gyfnodol. | Mai 22 | Bob blwyddyn | Swyddog Llywodraethu ac Ansawdd |



## Beth ydyn ni am ei gyflawni?

**Amcan 2** – Gwrando, deall ac ymateb i anghenion ein buddiolwyr a'n cymunedau.

## Pam fod hyn yn bwysig i ni?

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sylfaenol i'n gwaith o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gyflawni eu potensial yn llawn, ac o fynd i'r afael ag effaith anghydraddoldeb. Mae angen i ni wrando, deall ac ymateb i anghenion ein buddiolwyr a'n cymunedau fel y gallwn wireddu newid cadarnhaol.

| Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? | Amserlen ar gyfer cwblhau | I'w adolygu | Cyfrifoldeb Pennaf |
|---|---|---|---|
| **2.1** Byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd o'n Grŵp Cydraddoldeb bob chwarter fel y gall yr aelodau ein cynghori a'n cefnogi i wireddu newid ystyrlon. Mae'r aelodau'n cynnwys Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Chwaraeon Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Cyngor Hil Cymru a Chynghrair Chwaraeon Menywod.<br><br>*PLCF 2.1* | Awst 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch |
| **2.2** Byddwn yn cyflwyno mecanweithiau i ddeall i ba raddau mae ein buddiolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth ddefnyddio'n gwasanaethau.<br><br>*PLCF 2.2, 4.3* | Medi 21 | Bob chwarter | Cyfarwyddwr Rhaglenni / Dadansoddwr Data |
| **2.3** Byddwn yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a ffynonellau gwybodaeth eraill i lywio'r gwaith o gyflwyno'n gwasanaethau a blaenoriaethu'n hadnoddau. | Awst 22 | Bob chwarter | Cyfarwyddwr Rhaglenni / Dadansoddwr Data |
| **2.4** Byddwn yn datblygu cymysgedd o gynigion cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu. Bydd ein gwasanaethau'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth o drawma plentyndod ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran addysg, cyflogaeth ac iechyd, a'r tebygolrwydd o droseddu a/neu aildroseddu. | Awst 22 | Bob chwarter | Cyfarwyddwr Rhaglenni / Dadansoddwr Data |



| Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? | Amserlen ar gyfer cwblhau | I'w adolygu | Cyfrifoldeb Pennaf |
|---|---|---|---|
| **2.5** Byddwn yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn uniongyrchol â chymunedau amrywiol i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a rhaglenni. Bydd hyn yn cynnwys llais pobl ifanc a chydgynhyrchu. | Awst 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch / Cydlynwyr Prosiectau |
| **2.6** Byddwn yn cynnal Safon Arian inSport Chwaraeon Anabledd Cymru ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i gyflawni Safon Aur inSport erbyn mis Awst 2023.<br><br>*PLCF 4.4* | Awst 22 | Bob blwyddyn | Arweinydd CA&Ch |
| **2.7** Byddwn yn hybu ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ein cyfathrebu a'n cynnwys ac wrth gyflwyno'n gwasanaethau. | Ion 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch / Rheolwr Cyfathrebu Marchnata |
| **2.8** Byddwn yn gweithredu i sicrhau bod ein cyfathrebu mewnol ac allanol mor hygyrch â phosib i fuddiolwyr, staff a gwirfoddolwyr sydd ag anabledd neu nam. | Ion 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch / Rheolwr Cyfathrebu Marchnata |
| **2.9** Byddwn yn ffurfioli'n Rhaglen Arweinyddiaeth Kicks ac yn treialu rhaglen arweinyddiaeth menywod newydd, Changemakers. | Ion 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch / Cydlynwyr Prosiectau |
| **2.10** Byddwn yn ymgorffori cynnwys CA&Ch yn ein holl raglenni. | Awst 22 | Bob chwarter | Arweinydd CA&Ch / Cydlynwyr Prosiectau |

FOUNDATION



## Beth ydyn ni am ei gyflawni?

**Amcan 3** – Dathlu amrywiaeth, hyrwyddo cynhwysiant a herio gwahaniaethu.

## Pam fod hyn yn bwysig i ni?

Rydym mewn safle unigryw i ddefnyddio'n llais i wireddu newid cadarnhaol.

| Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn? | Amserlen ar gyfer cwblhau | I'w adolygu | Cyfrifoldeb Pennaf |
|---|---|---|---|
| 3.1 Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, wedi'i ategu gan ein Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (i'w fonitro bob chwarter), ac adroddiad cynnydd blynyddol.<br><br>*PLCF 4.2, 6.1* | Medi 21 | Bob blwyddyn | Hyrwyddwr CA&Ch y Bwrdd / Cyfarwyddwr y Sefydliad |
| 3.2 Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu a chalendr o ddigwyddiadau allweddol (e.e. Pride Cymru/Caerdydd) a blogiau gan westeion (e.e. cenhadon â phrofiadau byw).<br><br>*PLCF 3.1, 4.1, 5.2* | Medi 21 | Bob blwyddyn | Rheolwr Cyfathrebu Marchnata / Arweinydd CA&Ch |
| 3.3 Byddwn yn sicrhau bod y cynnwys a ddefnyddir ar draws ein platfformau'n adlewyrchu'r bobl amrywiol rydym yn eu cefnogi ac yn gweithio â nhw. | Medi 21 | Bob blwyddyn | Rheolwr Cyfathrebu Marchnata / Arweinydd CA&Ch |
| 3.4 Byddwn yn hyrwyddo effaith chwaraeon fel cyfrwng i wireddu newid cadarnhaol. | Medi 21 | Bob chwarter | Cyfarwyddwr y Sefydliad |
| 3.5 Byddwn yn cydweithio â Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol ac i roi ymgyrchoedd ar waith yn lleol. | Awst 22 | Bob chwarter | Rheolwr Cyfathrebu Marchnata / Arweinydd CA&Ch |
| 3.6 Byddwn yn cyflwyno gweithdai addysg gwrth-wahaniaethu fel rhan o'n rhaglen Premier League Primary Stars. | Gorff 2022 | Bob chwarter | Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar a'r Cynradd |

FOUNDATION

## Cysylltiadau Allweddol

**Arweinydd CA&Ch y Bwrdd**
**Katie Dalton**

E | info@cardiffcityfc.org.uk

T | 02920 231 212

**Cyfarwyddwr y Sefydliad**
**Gavin Hawkey**

E | Gavin.Hawkey@cardiffcityfc.org.uk

T | 07701 287 696

**Arweinydd CA&Ch y Staff**
**Chris Foot**

E | Chris.Foot@cardiffcityfc.org.uk

T | 07572 231 719